## Y Pasg

**Darlleniad 1: Mathew 14:21-31**

**Darlleniad 2: Rhufeiniaid 6:3-11**

‘Diolch, Arglwydd, am achubiaeth,
Byth ni allwn fod yn drist;
Rhoddaist inni fywyd newydd
Drwy gyfodi Iesu Grist;
Rhydd yn awr, Geidwad Mawr,
Rhwygwyd bedd mewn toriad gwawr.’

O! Dduw, Dad hollalluog, creawdwr a rhoddwr bywyd, cofiwn fel y bu i ti, ym more bach y dydd, dreiglo ymaith faen angau ei hun a dod â’th Fab yn ôl i blith y byw. Yn y weithred hon rhoddaist i ni gyfle newydd i bontio’r agendor sydd rhyngom a thi. Er gwaethaf y gwahaniaeth rhyfeddol rhyngom, megis tywyllwch a haul canol dydd, pechod a phurdeb, y ni yn ddim a thithau oll yn gyfan, fe drefnaist ffordd newydd i wneud hynny yn Iesu Grist – ‘ffordd a drefnwyd cyn bod amser’, ‘ffordd a’i henw yn rhyfeddol’ – i ni ei cherdded tuag atat. Iesu a ddywedodd, ‘Myfi yw’r ffordd at y Tad’, ac ynddo ef fe’th glodforwn di’r dydd hwn, O! Dduw. Bendigedig wyt am i ti blygu i’n cyfarfod ni drwy ddod fel un ohonom ni, y rhai sydd â dedfryd marwolaeth yn rhan annatod o’n natur. Ti yw ein Ceidwad mawr, sy’n driw i’r rhai sy’n dy garu ac yn cadw dy orchmynion.

> ‘Diolch, Iesu, am dy aberth,
> Byth ni allwn wneud yn llawn;
> Rhoddaist inni gyfle newydd,
> Bore ddaeth ’rôl tristwch pnawn;
> Rhydd yn awr, Geidwad Mawr,
> Rhwygwyd bedd mewn toriad gwawr.’

O! Iesu, ein Ceidwad a’n Gwaredwr, diolch i ti am wynebu angau’r Groes ar ein rhan. Diolch i ti am gerdded ffordd bywyd yn llawn o’n blaenau. Er dy fod yn lân ac yn bur, cymeraist dy wneud yn bechod gan ddangos inni, er garwed y ffordd, a themtasiynau ar bob llaw, ei bod yn ffordd agored i bob un ohonom ei cherdded yn ôl dy droed di. Ac wrth dy ganlyn di a chredu ynot fel yr ymddiriedaist ti yn Nuw, dangosaist inni ei bod hi’n bosibl i ni bechaduriaid wynebu marwolaeth a’r bedd yn eofn, yn y sicrwydd y cawn atgyfodiad i fywyd tragwyddol – ‘Mae Iesu wedi cario’r dydd, Caiff carcharorion fynd yn rhydd.’

> ‘Diolch, Ysbryd, am d’arweiniad,
> Byth ni allwn hebot ti;
> Rhoddaist ynom galon newydd
> Wedi’r siom ar Galfari;
> Rhydd yn awr, Geidwad Mawr,
> Rhwygwyd bedd mewn toriad gwawr.’

O! Ysbryd y Crist atgyfodedig, diolch i ti am fod gyda ni'n awr i'n harwain o siom ac amheuon Bryn Calfaria. Dyro dy dangnefedd i ni a rho dân yn ein calonnau wrth inni siarad â thi. Agor ein llygaid, O! Ysbryd Glân, i weld fod Iesu'n dal i aros gyda ni, er tywylled ein dyddiau. Cynorthwya ni i ymdeimlo â'i bresenoldeb, i gofio ei eiriau ac i werthfawrogi ei aberth. Cynorthwya ni i'w weld drwy lygaid y ffydd sy'n gweld y tu draw i'r dioddefaint a'r bedd, i weld y gogoniant hwnnw sydd ar gael i ninnau hefyd ynddo ef. Ar y dydd hwn, O! Ysbryd, anfon ni allan yn ôl troed Mair Magdalen i gyhoeddi i'r holl fyd, 'Yr wyf wedi gweled yr Arglwydd'.

> 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro,
> Hwy haeddant gael eu dwyn ar go' –
> Mae Iesu wedi cario'r dydd,
> Caiff carcharorion fynd yn rhydd.' Amen.

***Dafydd Hughes***